# Sicrhau bod modd archebu Cymru.



Mewn partneriaeth â

# Pwy ydym ni.

**Mae TXGB yn eich helpu i gyrraedd cwsmeriaid newydd, yn ysgogi gwerthiannau a rhoi hwb i'ch gallu i wneud elw. Gan weithio mewn partneriaeth â VisitBritain / Croeso Cymru i ddod â busnesau a llwybrau at y farchnad at ei gilydd, mae TXGB yn helpu cwsmeriaid i ddarganfod cynhyrchion twristiaeth cyrchfannau.**

Mae TXGB yn farchnad ddigidol sy'n cysylltu llety, atyniadau, profiadau a theithiau â mwy o gwsmeriaid. Ymunwch un waith i gael gafael ar sawl sianel werthu ac amrywiaeth gynyddol o ddosbarthwyr arbenigol a gwefannau cyrchfannau. Dewiswch ymgyrchoedd benodol am ddim ynghyd â brandiau byd-eang – fe wnawn ni helpu i ymestyn eich cyrhaeddiad neu eich gallu i gael eich archebu ar-lein am y tro cyntaf.

### ✓ Rhannu data dwy ffordd amser real

Yn dangos argaeledd byw a phrisiau ar y sianeli gwerthu yr ydych wedi eu dewis a chael archebion yn uniongyrchol i mewn i'ch system gyda data llawn y cwsmer.

### ✓ Sianelu talu uniongyrchol

Cewch eich talu yn uniongyrchol ar adeg y gwerthiant, gan ddiogelu llif arian parod a data cwsmeriaid, gan sicrhau y gwneir archebion ar eich telerau chi.

### ✓ Yn hawdd i ymuno ac am ddim

Gallwch gysylltu â TXGB drwy eich system archebu bresennol, neu ddefnyddio ein offeryn gwerthu pwrpasol, TXLoad, am ddim.

### ✓ Optimeiddio costau comisiwn

Cael gafael ar amrywiaeth eang o sianeli unigryw heb dalu llawer o gomisiwn, ochr yn ochr â brandiau adnabyddus sefydledig.


### ✓ Cwbl hyblyg

Gallwch ddewis y partneriaethau dosbarthu gorau i chi drwy'r farchnad 'optio i mewn' / 'optio allan' syml ar eich dangosfwrdd hawdd ei ddefnyddio.

### ✓ Dim archeb, dim ffi

Dim ffioedd sefydlu na ffioedd tanysgrifio misol. Dim ond ffi archebu 2.5 y cant TXGB, a chomisiwn y sianeli gwerthu yr ydych wedi eu dewis.





Cychwyn arni

# Cysylltu mewn pedwar cam rhwydd.



Ewch i **txgb.co.uk**:

**1** Cliciwch ar '**Apply Now' i lenwi ein 'Get Connected Wizard' (teclyn cysylltu)**.

**2** **Dewiswch** eich **system archebu** o'r rhai a ddangosir, **neu** dewiswch opsiwn cysylltu arall i gysylltu â'n hofferyn gwerthu pwrpasol am ddim, TXLoad.

**3** **Nodwch eich manylion banc** er mwyn inni allu casglu unrhyw ffioedd sy'n ddyledus am archebion i ddosbarthwyr, gan leihau gwaith gweinyddol i chi.

**4** **Cysylltwch** eich **cyfrif Stripe** (neu cofrestrwch yn rhwydd), i dderbyn taliad am archebion yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr, trwy ein partneriaid dosbarthu uniongyrchol.

## A dyna ni!

Fe wnawn ni anfon eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair atoch mewn neges e-bost er mwyn i chi allu mynd at eich dangosfwrdd TXGB. Bydd ein tîm yn cysylltu ar unwaith i'ch helpu â'r camau nesaf.

### Desg Gymorth

Rydym ni yma i helpu unrhyw fusnes twristiaeth i gysylltu â TXGB.

**0330 223 5050**
**support@txgb.co.uk**